Cofnodion o Bwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 11eg Ionawr 2006 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8 .00pm

Presennol: Maer Colin Jenkins, Cyng Pam Steane Price, Dirprwy Faer Cyng Hugh Towns, Cyng Fran Murphy, Cyng Ieuan Gwyn, Mr Christopher Plummer, Swyddog Ariannol, Mr Des Davies, Swyddog Technegol, Roger Phillips Clerc y Dref.

Ymddiheuriadau : Cyng Richard Wallace, Cyng Roy Davies, Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Ros Bellamy, Cyng Paul Faulkner.

6680 / Ionawr / 06 Anfonebau i'w talu.

BT – LLINELL FFÔN NEWYDD	£ 217.50
ORCHARDWEB – DIWEDDARU GWEFAN	£ 37.50
WCVA – CYFLOGAU IONAWR	£ 34.66
WCVA – CYFLOGAU CHWEFROR	£ 123.62
BDO – ARCHWILWYR ALLANOL	£ 411.25
DEWIS – CYFIEITHU COFNODION	£ 138.96

6681 / Ionawr / 06 Incwm a dderbyniwyd

HYSBYSEBION Y RHAGLEN TÂN GWYLLT	£1480.00
AD-DALIAD TAW	£2021.38
LLOG Y CYFRIF CYNILO	£ 258.38
LLOG Y CYFRIF CYFREDOL	£ 0.41

.

6682 / Ionawr / 06 Balansau'r Cyfrif

Cofnodwyd a **Derbyniwyd** yr adroddad canlynol o gyllid y Cyngor:

LTC CYFRIF CYFREDOL	(£ 298.19)
LTC CYFRIF CYNILO (30.12.05)	£49,187.24
LTC CYFRIF TREULIAU'R MAER (20.12.05)	£ 1569.50

6683 / Ionawr / 06 Materion Ariannol Eraill.

a) Gosod yr Archebiant - Mae hwn wedi'i gadarnhau mewn cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ddydd Iau, Rhagfyr 8fed a bydd yn cael ei anfon ymlaen i CSC erbyn 31ain Ionawr, 2006. Mae rhybudd wedi'i dderbyn gan reoliadau sylfaenol Cymru.

b) Awdurdodi Trosglwyddo arian o un cyfrif i'r llall – Argymell bod y Clerc yn ysgrifennu at HSBC yn gofyn caniatâd gael ei roi i'r Swyddog Ariannol drosglwyddo arian.

6684 / Ionawr / 06 Adroddiad Chwarterol y Gyllideb tan Rhagfyr 31ain 2005.

Adroddodd y Cadeirydd, Cyng Hugh Towns ar y gyllideb a ddarparwyd gan y Swyddog Ariannol. Argymhellwyd y cynigion canlynol i'r Cyngor Llawn

- Trosglwyddo £1500 a glustnodwyd ar gyfer y Neuadd Ddinesig, a £500 a glustnodwyd ar gyfer CCTV i Gronfa'r Rhandir yn Heol Cilgant. Cynigiwyd gan Cyng Hugh Towns, eiliwyd gan Cyng Ieuan Gwyn. Pawb o blaid.
- Defnyddio incwm o £1235.47 sydd heb ei glustnodi a'i drosglwyddo i gyfrif treuliau'r Maer. Cynigiwyd gan Cyng Hugh Towns ac eiliwyd gan Cyng Pam Steane Price. Pawb o blaid.
- Symud £3750 o'r gronfa Tân Gwyllt a chlustnodi
  £1000 i'r Gronfa Goleuadau Nadolig
  £1000 i Gyflogau Staff
  £500 i ddiweddaru'r polisi yswiriant
  £50 ar gyfer Goleuadau Stryd
  £1200 i Gronfa Neuadd y Sir. Cynigiwyd gan Cyng Hugh Towns ac eiliwyd gan Cyng Colin Jenkins Pawb o blaid.

6685 / Ionawr / 06 Gohebiaeth yn Gysylltiedig â Chyllid

1. Caniatâd Benthyciad Cyhoeddus Llywodraeth Cynulliad Cymru. Argymhellwyd cyn gynted â bod rhybudd wedi'i dderbyn oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad ynglŷn â chaniatâd benthyca ar gyfer 2006-7 bod y Cyngor yn gwneud cais am ganiatâd i ganiatau benthyciad o £50000 i barhau gyda phrosiect Neuadd y Sir.
2. Costau Goleuo Llwybrau Troed – Rhybudd o gostau gan CSC yn dod i gyfanswm o £806.92 ar gyfer 2006-7. Nodwyd.
3. Llythyr oddi wrth Zurich Municipal mewn perthynas ag adnewyddu polisi. Argymell bod ateb yn mynd yn gofyn am eglurhad parthed y polisi dan sylw.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45pm.



Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk